

CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| ADRODDIAD I'R: | Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu |
| DYDDIAD: | 15 Medi 2021 |
| LLEOLIAD: | Cyfarfod dros y we |
| TEITL: | Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) Ceredigion a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2021 ac Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2020-21. |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | Rhoi cyfle i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu graffu ar y penderfyniadau neu'r camau gweithredu a wnaed gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. |
| RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH: | Fel y Pwyllgor Craffu a ddynodwyd i gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |

CEFNDIR:

O dan Adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y pŵer i graffu ar y penderfyniadau a wneir, neu gamau eraill a gymerir, gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

COFNODION CYFARFOD PSB CEREDIGION A GYNHALIWDYD AR 12 GORFFENNAF 2021

Cyflwynir i'r Pwyllgor gofnodion drafft cyfarfod PSB Ceredigion a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2021, ac maent i'w gweld yn **Atodiad 1**.

Mae'r adroddiadau diweddaraf o Grwpiau Prosiect y PSB, fel y'u cyflwynwyd i'r PSB, yn cael eu cynnwys ar ffurf **Atodiadau 2.1 i 2.5** isod:

2.1 Grŵp Prosiect Newid Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol – 10 Mehefin 2021

2.2 Grŵp Prosiect Deall ein Cymunedau – 21 Mai 2021

2.3 Grŵp Prosiect Cyd-leoli ac Integreiddio Gwasanaethau Rheng Flaen – 7 Mehefin 2021

2.4 Grŵp Prosiect Menter ac Arloesedd – 26 Mai 2021

2.5 Grŵp Prosiect Hyfforddiant Cydnerthedd – 8 Mehefin 2021

ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN LLESIANT LLEOL CEREDIGION 2020-21

Mae'n rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyflwyno copi o'r Asesiad Llesiant, y Cynllun Llesiant Lleol a phob Adroddiad Blynyddol i Weinidogion Cymru, y Comisiynydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol y Cyngor, a'u cyhoeddi ar wefan

y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Yn unol â'r cyfrifoldeb hwn a fframwaith yr adroddiad a gytunwyd gan y Pwyllgor hwn ym Mehefin, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion bellach wedi cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2020-21 a hynny yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf. Yn awr cyflwynir yr adroddiad i'r Pwyllgor a gwelir copi yn **Atodiad 3**.

**LLESIANT
CENEDLAETHAU'R
DYFODOL:**

**Oes Asesiad Effaith Integredig
wedi ei gwblhau? Os na,
esboniwch pam
Crynodeb:
Hirdymor:
Integreiddio:
Cydwethio:
Cynnwys:
Atal:**

Nac oes, am nad yw'r
adroddiad yn newid Polisi
neu Wasanaeth.

ARGYMHELLION:

- i. Derbyn cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2021.
- ii. Derbyn yr adroddiad diweddaraf ar gyfer Grwpiau Prosiect y PSB, fel y'u cyflwynwyd i'r PSB.
- iii. Derbyn Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2020-21.

RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:

Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynw Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Enw Cyswllt:

Alun Williams

Swydd:

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi a Pherfformiad

Dyddiad yr adroddiad:

26.7.21

Acronymau:

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus / Public Services Board (PSB)